

Ionawr 2017

Annwyl gyfeillion yn y sector twristiaeth,

Yn rhinwedd fy swydd fel Rheolwr Cyrchfan Conwy rwyf yn gyfrifol am ofyn am i Sector Twristiaeth Sir Conwy am enwebiadau ar gyfer aelodaeth Grŵp Llywio newydd Cyrchfan Conwy, gan fod y cylch tair blynedd blaenorol wedi dod i ben fis Rhagfyr 2016.

Hoffech chi gymryd fwy o ran yng ngwaith Cyrchfan Conwy a'n helpu ni i yrru yn ein blaenau tuag at lwyddiant, ffyniant a chyfleoedd i'n trigolion?

Rydym ni, yn unol â chylch gorchwyl Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy, ar fin ethol Grŵp Llywio newydd.

Bydd y grŵp yn cynnwys aelodau o sector twristiaeth Sir Conwy a sefydliadau perthnasol wedi eu hethol am gyfnod o dair blynedd. Bydd y grŵp yn cyfarfod yn chwarterol o fis Ionawr 2017 ymlaen ac yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Rheoli Cyrchfan Conwy, sy'n cynnwys uwch swyddogion ac aelodau etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Nodau ac amcanion allweddol y grŵp ar gyfer y tair blynedd nesaf yw gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Cyrchfan Conwy yn gyrchfan drwy gydol y flwyddyn gyda statws "Rhaid Ymweld", gan ei dyrchafu i lwyfan y byd fel gyrchfan a adnabyddir ym Mhrydain, Ewrop a thu hwnt fel gyrchfan heb ei hail.

Os ydych chi'n credu eich bod chi'n ymgeisydd addas ar gyfer y rôl hon a chennych chi brofiad blaenorol o gyfathrebu gydag aelodau eraill eich sector a busnesau twristiaeth, yna mae arnom ni eisiau clywed gennych chi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais a gweithio gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus. Os digwydd i ni dderbyn gormod o geisiadau, bydd panel penodi yn cael ei gynnwyl i edrych ar aelodau addas y grŵp llywio newydd.

### **George Brookes | Rheolwr Cyrchfan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Gwerthfawrogwn petaech yn anfon eich cais erbyn 26/1/17 i'r cyfeiriad e-bost isod.

[george.brookes@conwy.gov.uk](mailto:george.brookes@conwy.gov.uk)

Enw	
Cyfeiriad	
Cyfeiriad e-bost	
Sector Busnes / Lleoliad	
Pa bethau y gallwch chi eu cynnig i'r grŵp a pham bod arnoch chi eisiau bod yn aelod o'r grŵp llywio (50 gair)?	